## Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

### Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0804(FM) a gyhoeddwyd gan Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Mawrth 2008

**At Helen Mary Jones:**

Yn ystod Cyfarfod Llawn y Prif Weinidog ar 11 Mawrth fe dynnoch sylw at bwnc cynaliadwyedd y nawdd ariannol ar gyfer gweithwyr plant mewn llochesau menywod. Yr wyf wedi cytuno i fwrw golwg dros y maes hwn a rhoi gwybod i chi am le yr ydym arni.

Yr wyf yn falch o glywed eich bod yn croesawu'r newyddion bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi plant mewn llochesau. Fel y gwyddoch, dyrannwyd arian ychwanegol i'r gyllideb ar gyfer Cam-drin Domestig, er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Cymru Gyfan ar gyfer Cam-drin Domestig. Un nod ynddi yw sicrhau bod digon o ddiogelwch a chefnogaeth ar gael ar gyfer menywod a phlant sy'n ffoi rhag cam-drin domestig. Er mwyn datblygu'r cymorth hanfodol hwn, aethom ati i ddarparu cyfanswm o £280,000 o arian newydd. Dyrannwyd £246,950 o'r cymorth ariannol newydd i Gymorth i Fenywod a £29,875 i BAWSO (Black Association of Women Step Out), er mwyn cyflogi wyth gweithiwr plant teithiol a Chydlynydd Plant a Phobl Ifanc i gefnogi plant mewn llochesau yng Nghymru.

Mae hwn yn gymorth ariannol cynaliadwy a groesawyd gan Gymorth i Fenywod a BAWSO pan gafodd ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2007.

O ganlyniad i'r cymorth ariannol newydd hwn mae Cymorth i Fenywod a BAWSO erbyn hyn yn cael £1,021,801 a £373,841 yn eu tro o gymorth ariannol cyson bob blwyddyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hwn yn gynnydd sylweddol o'i gymharu â'r cyllid a roddwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Ar ben hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn talu £1,992.12 y flwyddyn am bob lle mewn gwely mewn llochesau menywod ac am fathau eraill o daliadau ar gyfer cymorth i fenywod. Lwfans Plant ydyw dan system dariff y Grant Refeniw Cefnogi Pobl.

Mae angen i mi ddeall yn iawn effaith yr arian newydd cyn penderfynu a oes angen ystyried unrhyw fesurau pellach.

Yr wyf yn cyfarfod yn rheolaidd gyda Chyfarwyddwr Cymorth i Fenywod a byddaf yn parhau i adolygu'r sefyllfa.